| **English** | **Cymraeg** |
| --- | --- |
| **Gathering Prayer**<br><br>**Jesus, our friend**<br>(use alternate index fingers to point and tap the middle of opposite palms)<br><br>**Be with us today**<br>(two hands, palms up in front of you, move up and down twice)<br><br>**As we share together,**<br>(two hands, palms up in front of you, move one forward and one back and alternate twice)<br><br>**Pray together,**<br>(hands together, palm against palm, as though praying)<br><br>**Play together,**<br>(hands to each side, palms up, make two small circles outwards)<br><br>**And get to know you better,**<br>(point up with one hand)<br><br>**As children together in your family**<br>(one hand out, palm down in front of you, move it sideways and up in three 'steps' as though to indicate children of three different heights)<br><br>**AMEN**<br>(Two thumbs up, and bring fists slowly together to meet in front of you) | **Gweddi Ymgynull**<br><br>**Iesu, ein ffrind**<br>(defnyddiwch fysedd mynegrif bob yn ail i bwyntio a thapio canol y cledrau cyferbyn)<br><br>**Bydd gyda ni heddiw**<br>(dwy law, cledrau i fyny o'ch blaen, symudwch i fyny ac i lawr ddwywaith)<br><br>**Wrth i ni gyd-rannu,**<br>(dwy law, cledrau i fyny o'ch blaen, symudwch un ymlaen ac un yn ôl a bob yn ail, ddwywaith)<br><br>**Cyd-weddïo,**<br>(dwylo gyda'i gilydd, cledr yn erbyn cledr, fel petaech yn gweddïo)<br><br>**Cyd-chwarae,**<br>(dwylo i bob ochr, cledrau i fyny, gwnewch ddau gylch bach tuag allan)<br><br>**A dod i dy 'nabod yn well,**<br>(pwyntio i fyny ag un llaw)<br><br>**Ar y cyd, yn blant yn dy deulu**<br>(un llaw allan, eich cledr i lawr o'ch blaen, symudwch hi i'r ochr ac i fyny mewn tri 'cham' fel petai eich bod yn dynodi plant o dri thaldra gwahanol)<br><br>**AMEN**<br>(Dau fawd i fyny, a dod â'ch dyrnau at ei gilydd yn araf i gwrdd o'ch blaen) |
| OR<br><br>**Thank you, God, for bringing us together today.**<br>**Help us to grow closer to you in all we do.**<br><br>**Help us to speak and to listen, to learn and to grow together, Adventuring together with you wherever we may go.**<br>**Amen** | NEU<br><br>**Diolch, Dduw, am ddod â ni at ein gilydd heddiw.**<br>**Helpa ni i dyfu'n agosach atat yn yr hyn a wnawn.**<br>**Helpa ni i siarad a gwrando, i ddysgu ac i fyw ar y cyd, i fynd ar antur gyda'n gilydd ble bynnag yr awn.**<br>**Amen** |